# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Video Conference via Zoom**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 9 Chwefror 2021

Amser: 09.00 - 09.20

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Rebecca Evans AS<br>Mark Isherwood AS<br>Siân Gwenllian AS<br>Mandy Jones AS |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Caroline Jones; Roedd Mandy Jones yn bresennol fel dirprwy.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfodydd blaenorol i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

Nododd y Pwyllgor Busnes y trefniadau ymarferol canlynol ar gyfer gwaith craffu deddfwriaethol yr wythnos hon a chytunodd arnynt:

- bydd meicroffonau'r Aelodau perthnasol yn  weithredol yn ystod cyfnodau pan fydd gwelliannau'n cael eu cynnig yn ffurfiol a phan bleidleisir arnynt, er mwyn osgoi oedi;

- at ddibenion pleidleisio, cynhelir dau gyfarfod ar wahân gyda gwahanol rifau adnabod ar y ddau ddiwrnod, felly bydd angen i Aelodau fewngofnodi i'r system ddwywaith;

- ddydd Mawrth, bydd toriad cyn y bleidlais gyntaf yn y Pwyllgor o'r Senedd Gyfan, a thoriad byr rhwng y Pwyllgor a dechrau'r Cyfarfod Llawn; a

- dydd Mercher, bydd toriad cyn y bleidlais gyntaf ym mhob un o'r trafodion Cyfnod 3, toriad byr rhwng y Cyfnod 3 cyntaf a Chwestiynau Llafar, ac eto cyn y Cyfnod 3 ar y Bil Brys.

**Dydd Mawrth**

- Bydd y Cyfarfod Llawn yn dechrau ar ôl diwedd trafodion y Pwyllgor o'r Senedd Gyfan ar gyfer Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws), a fydd yn dechrau am 13.00.
- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal ar ôl yr eitem olaf o fusnes.

**Dydd Mercher**

- Bydd y Cyfarfod Llawn yn dechrau am 13.00.
- Ni fydd cyfnod pleidleisio heblaw yn ystod y ddwy ddadl Cyfnod 3.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.50pm.

Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes y byddai'n arfer ei phwerau dethol, er mwyn osgoi i Gyfnod 2 o'r Bil Brys gael ei ailadrodd yng Nghyfnod 3, ac anogodd yr Aelodau i beidio ail-gyflwyno gwelliannau sydd wedi'u gwrthod yn gynhwysfawr yng Nghyfnod 2.

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y newid a ganlyn:

**Dydd Mawrth 23 Chwefror 2021**

- Dadl: Cyfnod 4 y Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) (15 munud)

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 24 Chwefror 2021 -**

- Eitem ~~Dadl~~ ar y cyd â Senedd Ieuenctid Cymru (45 munud)

**Dydd Mercher 3 Mawrth 2021 –**

- ~~Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu: A ddylid datganoli darlledu?  (30 munud)~~ *– gohiriwyd tan 17 Mawrth*
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon: Ymchwiliad i effaith Covid-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru: Adroddiad 2 - Yr effaith ar iechyd meddwl a llesiant (~~6~~30 munud)
- Dadl ar ddeisebau yn ymwneud â rhaglen frechu COVID-19 (30 munud)

**Dydd Mercher 10 Mawrth 2021 –**

- Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv): (30 munud)
- Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar adferiad hirdymor o Covid-19 (60 munud)
- Dadl ar ddeiseb P-05-1078 Cynyddu cyllid ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl a gwella amseroedd aros i bobl sydd angen help mewn argyfwng (30 munud).
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (30 munud)

**Senedd Ieuenctid Cymru**

Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes mai cyfres o ddatganiadau fydd yr eitem ar 24 Chwefror, yn hytrach na dadl, felly ni fydd pleidlais ar y diwedd. Amlinellodd hefyd y strwythur arfaethedig yn fanylach, gan gynnwys y byddai'r Prif Weinidog ac arweinwyr y pleidiau yn cael eu gwahodd i gyfrannu.